# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Mehefin 2018

Amser: 08.30 – 08.58

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Ychwanegodd y Llywodraeth ddau ddatganiad:

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Morlyn Llanw Bae Abertawe (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Cyhoeddiad Diweddar Grŵp Airbus (45 munud)

Er mwyn cynnwys y datganiadau ychwanegol, bydd Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Addysg Gychwynnol Athrawon (45 munud) yn cael ei gyhoeddi fel Datganiad Ysgrifenedig.

Penderfynodd Rheolwyr Busnes y dylai'r Cynnig Heb Ddyddiad Trafod a gyflwynwyd gan Rhun ap Iorwerth gael ei gynnwys i'w drafod yfory, yn ogystal â chynnig i atal Rheolau Sefydlog 11.16, 12.20(i) a 12.22(ii) i ganiatáu i'r ddadl ddigwydd. Gofynnodd Paul Davies am i'w wrthwynebiad i'r ddau benderfyniad gael ei gofnodi. Hysbysodd y Llywydd y Pwyllgor mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau i'r cynnig fydd 18.00 heddiw.

*NNDM6753 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn datgan nad oes ganddo bellach hyder yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflawni prosiectau seilwaith mawr, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth San Steffan i beidio â chefnogi morlyn llanw Bae Abertawe.*

*2. Yn datgan nad oes ganddo hyder yn swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn credu y dylai'r swydd gael ei dileu a'i disodli gan Gyngor Gweinidogion y DU, wedi'i gyfansoddi'n briodol gyda phwerau cyfartal i wneud penderfyniadau ar y cyd.*

**Dydd Mawrth**

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 18 Gorffennaf 2018 –**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Datganiad: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod – Bil Awtistiaeth (Cymru) (30 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ymadawiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (30 munud)
- Cynnig i nodi'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer 2017 – 18 (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Gwneud i'r economi weithio i'r rheiny sydd ag incwm isel (60 munud)

## 4 Pwyllgorau

### 4.1 Aelodaeth o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Penderfynodd Rheolwyr Busnes trwy bleidlais fwyafrif i godi aelodaeth y pwyllgor i chwe Aelod, a'i wneud yn fwy gwleidyddol gytbwys trwy ychwanegu dau Aelod Llafur i'r aelodaeth gyfredol, cyn iddi ddod yn bwyllgor sifftio o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael). Gofynnodd Paul Davies am i'w wrthwynebiad gael ei gofnodi.

Cytunodd Rheolwyr Busnes y dylid amseru'r newid i'r aelodaeth fel y bydd yn digwydd yr un pryd â newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer pwyllgor sifftio.

## 5 Y Cyfarfod Llawn

### 5.1 Arweinwyr Plaid yn cymryd rhan yn y balot ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cefnogwyd y cynnig gan fwyafrif y Rheolwyr Busnes, ac felly dywedodd y Llywydd y bydd y canllawiau'n cael eu newid i'w gwneud yn glir nad yw Arweinwyr Plaid yn gallu ymuno â'r balot ar gyfer cwestiynau i'r Prif Weinidog.

## 6 Amserlen y Cynulliad

### 6.1 Dyddiadau toriadau'r Cynulliad

Trafododd Rheolwyr Busnes gynnig y Llywydd i ychwanegu wythnos at dymor yr haf, a chytunwyd yn unfrydol i gadw at y patrwm presennol ar gyfer toriad yr haf.

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes y dyddiadau ar gyfer toriad hanner tymor y gwanwyn a thoriad y Pasg 2019, a chytunwyd ar y dyddiadau dros dro ar gyfer hanner tymor y Sulgwyn a thoriad yr haf 2019, fel a ganlyn:

| Toriad | Dyddiadau |
|---|---|
| Hanner Tymor yr Hydref 2018 (1 wythnos) | *Dydd Llun 29 Hydref 2018 – dydd Sul 4 Tachwedd 2018* |
| Toriad y Nadolig 2018 | *Dydd Llun 17 Rhagfyr 2018 – dydd* |

| | |
|---|---|
| (3 wythnos) | *Sul 6 Ionawr 2019* |
| Hanner Tymor y Gwanwyn 2019 (1 wythnos) | *Dydd Llun 25 Chwefror 2019 – dydd Sul 3 Mawrth 2019* |
| Toriad y Pasg 2019 (3 wythnos) | *Dydd Llun 8 Ebrill 2019 – dydd Sul 28 Ebrill 2019* |
| *Hanner tymor y Sulgwyn 2019 (1 wythnos) | *Dydd Llun 27 Mai 2019 – dydd Sul 2 Mehefin 2019* |
| *Toriad yr Haf 2019 (8 wythnos) | *Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019 – dydd Sul 15 Medi 2019* |

* Dyddiadau dros dro i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Busnes.